Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru

Parthau Cyfyngu

Amod trwydded a ddefnyddir i helpu i ddiogelu dioddefwyr a'r cyhoedd

Mae'r daflen hon yn darparu gwybodaeth gyffredinol.

Bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn esbonio'r trefniadau sy'n berthnasol i chi.

Fy Swyddog Cyswllt Dioddefwyr (VLO) yw:

Enw: _____

Rhif cyswllt: _____



Beth yw parth cyfyngu?



Mae parth cyfyngu yn amod trwydded newydd, difrifol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i droseddwr aros o fewn ardal benodol.

Mae amod trwydded yn ofyniad y mae'n rhaid i droseddwr gydymffurfio ag ef ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar. Maent wedi'u cynllunio i reoli risg a helpu i ddiogelu dioddefwyr a'r cyhoedd.

Mae parth cyfyngu yn wahanol i barth eithrio sy'n atal troseddwr rhag mynd i ardal benodol.

Pryd y gellir defnyddio parth cyfyngu?

Parth cyfyngu yw un o'r amodau mwyaf difrifol y gellir eu hychwanegu at drwydded troseddwr. Mae hyn yn golygu bod rheolau mwy caeth o ran pryd a sut y gellir eu defnyddio.

Ni fydd pob troseddwr yn cyflawni'r meini prawf ar gyfer parth cyfyngu. Maent yn cael eu defnyddio ar gyfer troseddwyr sydd wedi cyflawni troseddau difrifol, gan gynnwys troseddau rhywiol neu dreisgar ac ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, a phan fydd dioddefwyr yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr (VCS).

Bydd ond yn bosibl eu defnyddio os bydd y gwasanaeth prawf wedi asesu na all unrhyw amod trwydded arall reoli'r risg a nodwyd ganddynt. Mewn llawer o achosion, gallai fod yn fwy priodol i droseddwr dderbyn amod parth eithrio.

Bydd y rhan fwyaf o droseddwyr sy'n ddarostyngedig i barth cyfyngu yn cael eu monitro'n electronig (tag).

Gallwch siarad â'ch Swyddog Cyswllt Dioddefwyr (VLO) ynglŷn ag unrhyw bryderon sydd gennych am ryddhau'r troseddwr a rhannu eich safbwyntiau am fesurau a allai helpu i'ch diogelu. Bydd y safbwyntiau hyn yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r holl wybodaeth berthnasol arall pan wneir penderfyniadau ffurfiol am amodau trwydded.



Beth sy'n digwydd os bydd troseddwr yn torri amod parth cyfyngu?



Os bydd troseddwr yn torri amod trwydded, bydd y gwasanaeth prawf yn asesu'r amgylchiadau ac yn penderfynu ar y lefel briodol o gamau gweithredu sydd eu hangen.

Er na fydd yr ymateb hwn bob amser yn cael ei weithredu ar unwaith, bydd unrhyw achos o dorri amod yn cael ei ystyried o ddifri yn unol â lefel y risg a gyflwynwyd.

Os ydych yn credu bod y troseddwr wedi torri eu hamodau trwydded, gan gynnwys parth cyfyngu, rhowch wybod i'ch VLO. Efallai na fydd eich VLO yn gallu ymateb ar unwaith ac nid ydynt yn darparu gwasanaeth brys.

Os ydych chi'n teimlo eich bod mewn perygl uniongyrchol neu'n ofni am eich diogelwch, ffoniwch yr heddlu ar 999.

Gall y gwasanaeth Prawf adalw troseddwr i'r carchar (neu gymryd camau gorfodi eraill) os byddant yn torri eu hamodau trwydded, gan gynnwys parthau cyfyngu.

Bydd y gwasanaeth Prawf yn penderfynu a yw natur yr achos o dorri amod yn ddigon difrifol i anfon y troseddwr yn ôl i'r carchar. Bydd hyn ond yn digwydd os penderfynir na ellir rheoli'r troseddwr yn ddiogel mwyach yn y gymuned.

Mae'n bosibl y byddant yn mynd i'r afael â'r achos o dorri amod drwy fesurau eraill, er enghraifft rhybuddion ysgrifenedig a/neu amodau trwydded ychwanegol.

Bydd eich VLO yn eich diweddaru, a gallwch gysylltu â nhw os bydd gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau.



Am faint y mae parth cyfyngu yn para?

Cewch eich hysbysu bod y parth cyfyngu yn parhau i fod yn weithredol drwy'r llythyr cyswllt blynyddol gan eich VLO. Oherwydd natur ddifrifol parth cyfyngu, mae'n annhebygol y bydd yn cwmpasu cyfnod llawn y drwydded.

Cewch eich hysbysu os bydd y gwasanaeth prawf yn ystyried dileu parth cyfyngu.

Cyn ei ddileu, bydd eich VLO yn cysylltu â chi a rhoddir amser i chi rannu eich safbwyntiau a thrafod amodau trwydded eraill, er enghraifft parth eithrio. Rhaid i'r gwasanaeth prawf ystyried eich safbwyntiau a rhoi unrhyw fesurau y cytunwyd arnynt ar waith cyn dileu'r parth cyfyngu.

Gellir disodli parth cyfyngu gyda pharth eithrio os nad yw'r swyddog prawf yn asesu bod angen y parth cyfyngu mwyach.

Cymorth i ddioddefwyr

Rydym yn deall y gallai fod gennych bryderon ynglŷn â rhyddhau troseddwr. Nid oes angen i chi ymdopi â'r pryderon hyn eich hun. Os oes angen cymorth arnoch neu os hoffech siarad gyda rhywun, gall eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr siarad gyda chi ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych.

Byddant yn fwy na pharod i drafod beth yw parth cyfyngu gyda chi mewn mwy o fanylder a sut y gwneir penderfyniadau. Gallent hefyd eich helpu i ddod o hyd i wasanaethau lleol.

Gallwch gysylltu â gwasanaethau cymorth cenedlaethol hefyd:

- **Cymorth i Ddioddefwyr – Llinell Gymorth Rhyddhau Troseddwyr:** 0808 168 9280
- **Llinell Gymorth Genedlaethol Cam-drin Domestig :** 0808 200 0247
- **Llinell Gymorth Genedlaethol Stelcian:** 0808 802 0300
- **Llinell Gymorth NSPCC:** 0808 800 5000
- **Llinell Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol :** 0808 500 2222
- **Llinell Gymorth Byw Heb Ofn (Cymru):** 0808 80 10 800



